

# **Ymgynghoriad ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio ar gyfer 2024/25**

# Cynnwys

Yr hyn rydym yn ymgynghori yn ei gylch.....	2
Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru.....	2
Ein rôl o ran rheoleiddio.....	2
Ariannu ein dull rheoleiddio.....	3
Adolygiad blynyddol o godi tâl ar gyfer 2024/25.....	4
Ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2024/25.....	5
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	9
Sut i ymateb.....	9
Diogelu data.....	9
Y camau nesaf.....	9

## Yr hyn rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Rydym yn gofyn am eich barn a'ch barn ar ein cynigion ar gyfer ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio o 1 Ebrill 2024 fel y nodir yn y ddogfen hon. Byddwn yn defnyddio'r adborth i lywio ein cynlluniau newydd ar gyfer codi tâl, yr ydym yn bwriadu eu gweithredu o 1 Ebrill 2024, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

**Daw'r ymgynghoriad hwn i ben am hanner nos, nos Llun 8 Ionawr 2024.**

## Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein diben yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru ac i ddarparu gwell dyfodol i bawb. Credwn fod angen i ni ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu, gan ddiwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

## Ein rôl o ran rheoleiddio

Mae pawb eisiau i'n hamgylchedd gael ei reoli a'i gynnal yn dda, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Yn fwy nag erioed, mae angen gwarchod ein hamgylchedd, lleihau effeithiau newid hinsawdd ac atal dirywiad cynefinoedd a bywyd gwylt, ac mae newidiadau mewn polisiau ar bob lefel wedi adlewyrchu hyn.

Mae ein cylch gwaith yn eang ac yn cynnwys darparu ystod o wasanaethau rheoleiddio. Mae ein dull rheoleiddio yno i ddarparu safon ofynnol fel sylfaen i atal niwed amgylcheddol. Mae ein gwaith i asesu a rhoi trwyddedau ag amodau i ddiogelu'r amgylchedd, ac i fonitro sut y mae safonau deddfwriaethol yn cael eu bodloni a sut y cydymffurfir â hwy, yn allweddol i gefnogi amgylchedd o ansawdd uchel.

Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bennu risgiau blaenoriaeth i'r amgylchedd. Mae darparu a defnyddio tystiolaeth yn sail i'r penderfyniadau a wnawn ar draws y sefydliad a'n hymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Mae ein dull rheoleiddio yn cyd-fynd â'r meysydd lle mae'r risg fwyaf fel y'i pennir gan y gweithgaredd sy'n cael ei wneud a'r lleoliad a gynigir. Rydym yn helpu i sicrhau bod y rhai rydym yn eu rheoleiddio yn parhau i gydymffurfio ac yn cymryd camau pan fydd amodau trwydded yn cael eu torri. Mae ein gweithgareddau rheoleiddio yn helpu i sicrhau chwarae teg lle nad yw busnesau a reolir yn dda yn cael eu tanseilio gan weithredwyr gwael yn yr un sector, ac yn annog arloesedd.

## Ariannu ein dull rheoleiddio

Ariennir ein cyfrifoldebau rheoleiddio naill ai gan grantiau gan Lywodraeth Cymru (Cymorth Grant) neu gan daliadau a godir ar y rhai rydym yn eu rheoleiddio, lle mae gennym bwerau cyfreithiol i godi tâl.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn inni, o dan [Reoli Arian Cyhoeddus Cymru](#)<sup>1</sup>, i adennill costau gwasanaethau rheoleiddio yn llawn oddi wrth y rhai rydym yn eu rheoleiddio, yn hytrach na thrwy drethiant cyffredinol. Mae angen inni hefyd sicrhau mai dim ond i ddarparu'r gwasanaeth rheoleiddio hwnnw y defnyddir incwm o ffioedd a thaliadau.

Mae faint o adnoddau ac ymdrech reoleiddio a gymhwyswn i weithgaredd yn cael ei ysgogi gan ffactorau a throthwyon a nodir mewn deddfwriaeth a pholisi. Mae hyn yn arwain at ystod o fecanweithiau rheoli gwahanol gan gynnwys gwaharddiadau, eithriadau, datganiadau sefyllfa risg isel, trwyddedau, caniatadau, cydsyniadau a thrwyddedau. Bydd yr hierarchaeth hon o offer risg a rheoleiddio yn amrywio rhwng trefniadau. Po fwyaf yw'r risg amgylcheddol, y mwyaf o'n hadnoddau sy'n cael eu defnyddio a'r mwyaf yw'r gost i'w hadennill drwy daliadau.

Rydym yn parhau i asesu ein darpariaeth gwasanaethau ac adolygu ein taliadau am weithgareddau rheoleiddio i sicrhau bod prosesau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Rydym yn codi tâl am ein gweithgareddau trwyddedu a chydymffurfio yn unol â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', sy'n golygu mai ymgeiswyr sy'n gyfrifol am dalu'r gost o benderfynu ar gais am drwydded ac asesu eu cydymffurfedd â'r amodau diogelu. Mae'r dull hwn yn unol ag Adran 3 o'r Cod Rheoleiddwyr<sup>2</sup> a'n Hegwyddorion Rheoleiddio<sup>3</sup>.

Ariennir gwaith gorfodi gan arian Cymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Telir unrhyw ddirwyon a roddir gan y Llysoedd i Drysorlys EF.

---

<sup>1</sup> [Reoli Arian Cyhoeddus Cymru - Gov.Wales](#)

<sup>2</sup> [Cod Rheoleiddwyr - Gov.UK](#)

<sup>3</sup> [Cyfoeth Naturiol Cymru / Hegwyddorion Rheoleiddio](#)

Mae'r ffioedd a'r taliadau a godir i dalu costau ein gweithgareddau rheoleiddio yn cyfrif am tua 16% o gyfanswm ein cyllid ar gyfer 2023/24. Mae ein cynlluniau codi tâl cyfredol i'w gweld ar ein gwefan.<sup>4</sup>

Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad manwl o'n taliadau trwyddedu trwy ein Rhaglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC), a arweiniodd at weithredu taliadau trwyddedau newydd a diwygiedig ar gyfer blwyddyn ariannol gyfredol 2023/24.

Mae'r gyfres hon o gynigion codi tâl ar gyfer 2024/25 yn fwy cyfyngedig o ran cwmphas o'u cymharu ac maent yn delio â phwysau chwyddiant i raddau helaeth ac yn sicrhau ein bod yn rheoli ein diffygion mewn modd cynaliadwy.

Ar ôl cwblhau ein hadolygiad ffioedd trwyddedu manwl yn ddiweddar, rydym nawr yn bwriadu adolygu ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio yn flynyddol, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu adennill costau yn llawn.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, byddwn yn cynnal adolygiad manwl o'n taliadau cynhaliaeth blynyddol (cydymffurfio) er mwyn adennill costau yn llawn. Drwy wneud hynny, rydym yn cael ein hariannu'n gynaliadwy i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio ac yn cydfynd â pholisi [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#).

## Adolygiad blynyddol o godi tâl ar gyfer 2024/25

Mae'r adolygiad hwn wedi cael ei arwain gan ein hegwyddorion codi tâl canlynol:

- ffioedd yn seiliedig ar adennill costau llawn ar gyfer ein gwasanaethau (ar gyfer ceisiadau am drwyddedau ac Aseiad cydymffurfio)
- tryloywder ein penderfyniadau wrth godi taliadau
- osgoi traws-gymhorthdal rhwng cyfundrefnau
- darparu gorwelion cynllunio tymor hwy lle bynnag y bo'n bosibl
- osgoi cylchoedd o leihau wedyn codi taliadau drwy reoli ein gwargedion a'n diffygion yn weithredol
- cadw taliadau mor isel â phosibl drwy hybu gwell effeithlonrwydd yn barhaus
- peidio ag elwa o dalwyr taliadau
- bod yn annibynnol ar gymorthdaliadau trethdalwyr.

Ac mae wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)
- Trwyddedu Rhywogaethau
- Pwysau chwyddiant a chyfundrefnau rheoleiddio mewn diffyg.

Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2024 ymlaen, rydym yn cynnig cynnal ein ffioedd rheoleiddio lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae angen i ni addasu rhai ffioedd i sicrhau ein bod yn rheoli pwysau chwyddiant parhaus yn effeithiol yn ogystal â rheoli diffyg ar gyfer

---

<sup>4</sup> [Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein taliadau](#)

cyfundrefnau penodol. Mae gennym hefyd gynigion mwy penodol ar gyfer Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) a Thrwyddedu Rhywogaethau.

## Ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2024/25

Rydym yn cynnig cynyddu'r arian a gasglwn o'n cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r broses o adennill costau'n llawn, er mwyn cyflawni ein dull rheoleiddio a'r canlyniadau angenrheidiol ar gyfer yr amgylchedd ac adferiad gwyrdd Cymru.

Ni fyddai'n briodol ceisio Cymorth Grant ychwanegol ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio a ddylai gael eu cwmpasu gan daliadau ac ni allwn groes-gymorthdalw o ffrydiau incwm eraill. Wrth gynnig ffioedd a thaliadau newydd, rydym yn dilyn y gofynion a nodir yn [Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#) yn ogystal â rheolau Trysorlys EF a'n rhwymedigaethau deddfwriaethol, gan sicrhau mai dim ond costau cymwys sy'n cael eu cynnwys o fewn cyfrifiadau.

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai sectorau busnes, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach oherwydd chwyddiant a chostau byw uwch ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai methu â rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r broses o adennill costau'n llawn yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran adnoddau, a gostyngiad yn ein sylfaen sgiliau technegol ac felly, methu â sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

## Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)

Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, sy'n ffurfio Awdurdod Cymwys COMAH Cymru.

Rydym yn codi'r taliadau i adennill ein costau ar sail dull amser a deunyddiau, ond mae ein costau presennol o £161 fesul awr arolygydd yn ein gadael yn brin o adnoddau i gyflawni ein dyletswyddau yn y maes hwn. Rydym wedi nodi hyn fel risg sylweddol i'n gallu i gyflawni ein dyletswydd rheoleiddio.

Rydym yn cynnig tri newid i'r drefn COMAH.

- Cynyddu'r gyfradd cydymffurfio fesul awr o £161/awr i £202/awr.
- Ar ôl trafodaethau ag awdurdodau cymwys eraill y DU yn ddiweddar ynglŷn â dull cyson o ymgysylltu â darpar newydd-ddyfodiaid COMAH a safleoedd COMAH presennol sy'n gwneud addasiadau, mae CNC yn cynnig mabwysiadu dull awdurdod cymwys COMAH o adfer costau ar gyfer gwaith ymgysylltu cynnar â gweithredwyr COMAH o fewn y cwmpas.

Rydym yn aros am gadarnhad o'r dull awdurdod cymwys. Unwaith y cytunir arni, mae CNC yn bwriadu gweithredu'r gyfradd COMAH fesul awr ar waith bryd hynny.

- Cyflwyno tâl ar gyfradd reoleiddio safonol o £125 fesul awr i dalu am gostau arfer cynlluniau argyfwng COMAH awdurdodau lleol. Bydd y ffioedd hyn yn cael eu trosglwyddo i weithredwyr drwy eu hawdurdod lleol.

## Trwyddedu Rhywogaethau

Yn ddiweddar, gwnaethom gyflwyno rhaglen godi tâl ar gyfer trwyddedu rhywogaethau drwy ein rhaglen Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC). Mae'r gyfres hon o gynigion newydd yn ceisio cau'r bwloch o ran sicrhau bod costau'n cael eu hadfer yn llawn yn y maes hwn, ac mae'r ffioedd a gynigir yr un fath â'r rhai a gyflwynwyd yng ngham un o'r Adolygiad Strategol o Godi Tâl, ond gyda chyfradd chwyddiant + 3.1% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr [CPI]) wedi'i ychwanegu at yr elfen ffioedd sefydlog.

- Addasiadau i drwyddedau Moch Daear - ffi sefydlog o £75 am ddiwygiad gweinyddol; diwygiadau cymhleth ar gyfradd o £125 yr awr.
- Rhywogaethau morol a Warchodir gan Ewrop – (rhesymau hanfodol o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd) - Trwydded newydd (cymhleth) £125 yr awr; ffi sefydlog o £75 ar gyfer diwygiadau gweinyddol; diwygiadau cymhleth ar gyfradd o £125 yr awr.
- Rhyddhau asiantau bio-reoli anffrodorol - Trwydded newydd / adnewyddu (cymhleth) £125 yr awr; ffi sefydlog o £75 ar gyfer diwygiadau gweinyddol; diwygiadau cymhleth ar gyfradd o £125 yr awr.
- Codir ffi o £125 yr awr am ddiwygiadau cymhleth i drwyddedau arolygu. Ar hyn o bryd rydym yn codi ffi sefydlog (£73) am ddiwygiadau gweinyddol a chymhleth i drwyddedau arolygu, ac rydym yn codi £125 yr awr am ddiwygiadau cymhleth ar draws y maes trwyddedu rhywogaethau. Er mwyn sicrhau ein bod yn adfer ein costau'n llawn, rydym yn bwriadu codi £125 yr awr am y diwygiadau cymhleth hefyd.

## Cynigion lliniaru ar gyfer cyfundrefnau sydd â diffyg ac ar gyfer pwysau chwyddiant

Ar gyfer y cynlluniau hynny sydd naill ai mewn diffyg ar hyn o bryd neu'n rhagweld diffyg at y dyfodol, rydym yn cynnig mabwysiadu'r dulliau canlynol.

- Cynnydd penodol i'r cyfundrefnau hynny sydd mewn diffyg er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa i fantoli erbyn 2026/27. Bydd hyn yn berthnasol i'r cynlluniau cynhyrchu tâl cynhaliaeth mwy.
- Cynnydd chwyddiant (a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfradd CPI o 3.1%) cyn adolygiad manwl yn y blynyddoedd i ddod i roi sicrwydd bod modd adennill costau'n llawn. Mae hyn yn ymwneud â'r cynlluniau cynhyrchu tâl llai a fyddai fel arall angen

cynnydd sylweddol i gyrraedd sefyllfa adennill costau erbyn 2026/27 ond sydd wir angen adolygiad manwl yn y blynyddoedd i ddod i roi sicrwydd i ni o adennill costau llawn.

- Cynnydd chwyddiant (a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfradd CPI o 3.1%) mewn ffioedd trwyddedu a gyflwynwyd drwy'r Adolygiad Strategol o Godi Tâl

Dyma fanylion y cynigion yn y tri maes:

- Cynnydd penodol o **+5%** a gynigiwyd yn 2024/25 ar gyfer y meysydd cynhaliaeth canlynol:
  - Tâl Uned Safonol Adnoddau Dŵr (SUC)
  - Gosodiadau (gan gynnwys Cyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Canolig [MCPD])
  - Gwastraff ar safleoedd
  - Ansawdd Dŵr
- Cynnydd mewn chwyddiant (rhagwelir ar hyn o bryd yn **+3.1%**) a gynigiwyd yn 2024/25 ar gyfer y meysydd cynhaliaeth canlynol sydd angen adolygiad manwl yn ystod y blynyddoedd nesaf:
  - An-niwclear
  - Masnachu Allyriadau'r DU (Taliadau Trwyddedu a Chynhaliaeth)
  - Cyfleusterau ailgylchu deunyddiau
  - Cludwyr, Broceriaid a Delwyr Gwastraff
  - Trwyddedau Asesu Perygl Llifogydd (FRAPs)
  - Cydymffurfiaeth ym maes cronfeydd dŵr
- Cynnydd chwyddiant (rhagwelir ar hyn o bryd yn **+3.1%**) a gynigiwyd yn 2024/25 ar gyfer y meysydd **trwyddedu** canlynol:
  - Adnoddau Dŵr - Trwyddedau Tynnu / Cronni
  - Trwyddedau Gosodiadau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) (gan gynnwys y ffioedd bandio presennol ar gyfer ymgynghori ac ar y sail eu bod yn cael eu cymeradwyo a'u gweithredu; gan gynnwys hefyd Cyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Canolig (MCPD))
  - Trwyddedau Gwastraff EPR ar y safle
  - Trwyddedau Ansawdd Dŵr EPR
  - An-niwclear
  - Cydymffurfiaeth ym maes cronfeydd dŵr
  - Trwyddedu Rhywogaethau

### **Cynnydd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)**

Byddwn yn adolygu'r gyfradd CPI a ragwelir ar gyfer 2024/25 (+3.1% ar hyn o bryd) yn chwarter 3 1/4 i weld a fu unrhyw symudiad materol ac addasu fel y bo'n briodol fel cynnig terfynol.

Bydd unrhyw ffioedd a thaliadau rheoleiddio nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn parhau ar waith ar gyfraddau presennol 2023/24 ar gyfer 2024/25.



# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

Rydym yn ceisio eich barn a'ch safbwyntiau ar ein cynigion ar gyfer ein ffioedd a'n taliadau o 1 Ebrill 2024. Byddwn yn defnyddio'r adborth i lywio ein cynlluniau terfynol, yr ydym yn bwriadu eu gweithredu o 1 Ebrill 2024, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

**Daw'r ymgynghoriad hwn i ben am hanner nos, nos Llun 8 Ionawr 2024.**

Mae ein hymgyngoriad ar gael ar ein gwefan:

<https://ymgyngori.cyfoethnaturiol.cymru/sroc/ffioedd-a-thaliadau-rheoleiddio-ar-gyfer-2024-25>

## Diogelu data

Bydd unrhyw ymatebion rydych yn eu hanfon atom yn cael eu gweld yn llawn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad. Gallai aelodau eraill o staff Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd eu gweld i'w helpu i gynllunio ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Bwriadwn gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Gallen gyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw'r ymatebydd a rhan o'i gyfeiriad eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn gywir. Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni wrth nodi'ch ymateb ac fe wnawn eu tynnu oddi wrth ddeunydd a gyhoeddir.

Mae'n dal i fod yn bosibl y bydd enwau a chyfeiriadau a dynnwyd gennym yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym yn meddwl y bydd hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn i weld gwybodaeth a gedwir gan sawl corff cyhoeddus, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi cael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn ein caniatáu i ddal gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os oes unrhyw un yn gofyn i weld yr wybodaeth rydym wedi'i dal yn ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau neu beidio. Os oes rhywun yn gofyn i'w enw a'i gyfeiriad beidio â chael eu cyhoeddi, mae hynny'n ffactor pwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau efallai y bydd rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi gofyn iddynt beidio â chael eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn i ofyn am ei farn cyn penderfynu'n derfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Y camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr holl sylwadau (heblaw am wybodaeth bersonol fel y nodwyd uchod) a'n hymatebion ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan. Os ydych yn ymateb gyda chyfeiriad e-bost, gwnawn gydnabod eich ymateb a gwnawn eich hysbysu pan fyddwn yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion ar ein gwefan.